OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1606 (W. 333)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *18 Rhagfyr 2020* |
| *Laid before Parliament* | *22 Rhagfyr 2020* |
| *Coming into force - -* | *30 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 94(5) a (5A), 95(3) a (3A) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 30 Ionawr 2021.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2)(a), yn lle "31 Ionawr 2021" rhodder "30 Medi 2021".

(3) Yn rheoliad 2(2), yn lle "31 Ionawr 2021" rhodder "30 Medi 2021".

(4) Yn rheoliad 4(a), yn lle "1 Chwefror 2021" rhodder "1 Hydref 2021".

(5) Yn rheoliad 4(b), yn lle "31 Ionawr 2021" rhodder "30 Medi 2021".

(**1**) 1998 p. 31; *gweler* adran 142(1) am y diffiniadau o "the Assembly", "prescribed" a "Regulations". Mewnosodwyd is-adran (5A) yn adran 94 gan adran 50 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32). Mewnosodwyd is-adran (3A) yn adran 95 gan baragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg 2002.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2020/479 (Cy. 110).

*Kirsty Williams*
Minister for Education, one of the Welsh Ministers

18 December 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Diwygiodd Rheoliadau 2020 Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws, er mwyn caniatáu—

(a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod, a

(b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Mae rheoliad 2(2) o Reoliadau 2020 yn darparu bod y diwygiadau hynny yn peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021.

Prif effaith rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yw diwygio'r dyddiad 31 Ionawr 2021 yn Rheoliadau 2020 i 30 Medi 2021. Golyga hyn fod y diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2020 yn parhau i gael effaith tan 30 Medi 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.